Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
Life Sciences Hub Wales

# Deall Rhaglenni NIHR

Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd a Gofal (NIHR) yw un o'r cyllidwyr ymchwil iechyd a gofal mwyaf yn y DU. Mae ei raglenni cyllido'n cefnogi amrywiaeth eang o weithgareddau, o ymchwil gynnar ac adolygiadau o dystiolaeth i astudiaethau clinigol ar raddfa fawr. Mae diben penodol i bob rhaglen ac mae wedi'i dylunio i fynd i'r afael â chwestiynau ymchwil, camau datblygu, a meysydd gofal iechyd gwahanol sydd o fudd uniongyrchol i'r GIG ac i'r cyhoedd.

Mae'r canllaw hwn yn rhoi trosolwg o brif raglenni cyllido NIHR a'r mathau o ymchwil maen nhw wedi'u dylunio i'w cefnogi, gan eich helpu i adnabod y llwybr cyllido gorau.

| Rhaglen Cyllido | Cyfleoedd y flwyddyn | Manylion |
|---|---|---|
| Dulliau Gwell, Ymchwil Gwell (BMBR) | 2 alwad dan arweiniad ymchwilydd | Cyllid i brosiectau sy'n gwella methodoleg ymchwil. Helpu astudiaethau yn y dyfodol i gynhyrchu canlyniadau gwell a mwy dibynadwy. |
| Gwobrau Datblygu Gyrfa | Drwy gydol y flwyddyn | Cefnogi ymchwilwyr drwy gyllid, hyfforddiant a chyfleoedd datblygu gyrfa. |
| Gwerthuso Mecanwaith ac Effeithiolrwydd (EME) | 3 galwad dan arweiniad ymchwilydd a 3 galwad wedi'u comisiynu | Cyllido treialon clinigol ac astudiaethau ymchwil ar Lefel Parodrwydd Technoleg 3-6 i brofi a yw triniaeth, ymyriad neu ddull gweithredu yn gweithio ac yn helpu i wella gofal cleifion. |
| Synthesis Tystiolaeth (ES) | Dan arweiniad ymchwilydd drwy gydol y flwyddyn | Cefnogi prosiectau ymchwil sy'n canfod, yn gwerthuso ac yn cyfuno data o astudiaethau sydd eisoes yn bodoli i arwain penderfyniadau iechyd, iechyd y cyhoedd a gofal cymdeithasol. |
| Ymchwil Cyflawni Iechyd a Gofal Cymdeithasol (HSDR) | 3 galwad dan arweiniad ymchwilydd a 3 galwad wedi'u comisiynu | Cefnogi ymchwil ar Lefel Parodrwydd Technoleg 3-6 sy'n helpu i wneud gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn fwy effeithiol, hygyrch ac effeithlon. |
| Asesiad Technoleg Iechyd (HTA) | 3 galwad dan arweiniad ymchwilydd a 3 galwad wedi'u comisiynu | Cyllido astudiaethau ar Lefel Parodrwydd Technoleg 6-9 sy'n asesu a yw triniaethau, profion ac ymyriadau gofal iechyd yn effeithiol, yn gost-effeithiol ac yn addas i'w defnyddio'n ehangach. |
| Arbrofi i Arloesi (i4i) | 3 chyfle dan arweiniad ymchwilydd a 2 gystadleuaeth FAST wedi'u comisiynu | Cefnogi'r gwaith o ddatblygu dyfeisiau meddygol, offer diagnostig a thechnolegau iechyd digidol newydd ar Lefel Parodrwydd Technoleg 3-6 sy'n mynd i'r afael â heriau iechyd a gofal sydd eisoes yn bodoli neu sy'n dod i'r amlwg. |
| Grantiau Rhaglenni Ymchwil Gymhwysol (PGfAR) | 3 galwad dan arweiniad ymchwilydd | Cyllido rhaglenni ymchwil sylweddol, hirdymor ar Lefel Parodrwydd Technoleg 7-9 sydd wedi'u dylunio i wella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a sicrhau manteision go iawn i gleifion ac i'r cyhoedd. |
| Ymchwil Iechyd y Cyhoedd (PHR) | 3 galwad dan arweiniad ymchwilydd a 3 galwad wedi'u comisiynu | Cyllido ymchwil sy'n helpu i wella iechyd, atal salwch, a lleihau anghydraddoldebau iechyd ar draws cymunedau. |
| Rhaglen Ymchwil ar gyfer Gofal Cymdeithasol (RfPB) | 2 alwad dan arweiniad ymchwilydd ac 1 galwad wedi'i gomisiynu | Cefnogi ymchwil sy'n gwella gwasanaethau gofal cymdeithasol a chanlyniadau ar gyfer gwasanaethau gofal, gofalwyr a darparwyr gofal. |